

**Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Hydref 21ain
Tachwedd 2018 am 7.30 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 21st
November 2018 at 7.30pm**

1. Presennol/Present - Cynghorwyr Rhian Hughes (Cadeirydd, *Chairperson*), Myrddin Roberts, Maldwyn Williams, Hanna Elin Baguley, Barbara Williams a Geraint Parry (Clerc/*Clerk*).

2. Ymddiheuriadau/Apologies - Cyng. Alwena Roberts, Lewis Davies, Carwyn Jones a Alun Roberts

3. Datgan Ddidderdeb/Declaration of interest

Cyng. R Hughes a Cyng. H E Baguley yn datgan diddordeb ar eitem 8.2 oherwydd ei bod yn aelodau o Pwyllgor y Neuadd / *Clr. R Hughes and Clr. H E Baguley declared an interest in item 8.2 because they are members of the Village Hall committee.*

4. Cofnodion/Minutes - Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17ddeg o Hydref fel rhai cywir gan Myrddin Roberts, eiliwyd gan Maldwyn Williams / *Minutes of the previous meeting held on 17th October were accepted as accurate by Myrddin Roberts, seconded by Maldwyn Williams*

5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes

- 5.1 **Lôn Hafoty a lonydd lleol /Hafoty Road and local roads** - er bod rhywfaint o waith glytio wedi'i wneud, mae angen gwneud mwy o waith yn enwedig ger Rhos Ceuron / *Although some patching work has been carried out more work needs to be carried out especially by Rhos Ceuron*
- 5.2 **Chalet** - disgwyl gwybodaeth gan Cyng. L Davies. / *Awaiting further information from Clr. L Davies.*
- 5.3 Coeden rhwng Pant Owen a Llygaid y Gwynt - cafwyd dyfynbris arall am £700 am dorri a symud y goeden a chlirio helyg ar dir comin ger mynydd crafcoed. Cytunodd pawb i dderbyn y dyfynbris hwn. / *Another quote £700 was received for cutting and removing the tree and clearing the willow on common land by Mynydd Crafcoed. All agreed to accept this quote.*
- 5.4 Hen Cae Chwarae Plant - angen trafod yr hen ddogfennau. Clerc i drefnu i ddiwygio'r ddogfen Gofrestrfa tir / *Old Children's Playing Field - need to discuss the old documents. Clerk to arrange to amend the land registry document.*
- 5.5 **Cerrig ger Tre Gof** - yn dilyn gohebiaeth bellach gan Mr McNeil, Clerc i wirio cyfreithlondeb gosod cerrig ar dir comin. Cytunwyd bod angen i'r Cyngor Cymuned fod yn glir a cyson yn ein proses gyda materion o'r math / *following further correspondence from Mr McNeil, Clerk to check legality of placing stones on common land. It was agreed that the Community Council needs to be clear and uniform in our process with issues of this sort.*
- 5.6 Ailwampio'r pwmp - yn disgwyl am ddyfynbris ar gyfer y gwaith / *Refurbish the pump - awaiting a quotation for the work*
- 5.7 Safon torri'r Mynwentydd - mae'r mynwentydd nawr wedi cael y toriad terfynol am y flwyddyn. Clerc i ddiolch i'r contractwr am ymateb cyflym i'r cais ac ansawdd y gwaith. / *The cemeteries have now received the final cut for the year. Clerk to thank the contractor for the quick response and quality of work.*
- 5.8 Derbyniwyd cais am hawddfrait gan berchennog Frondeg. Angen gwybodaeth fanwl bellach. A oes gan y perchennog hawddfrait bresennol? / *Received a request for easement from the owner of Frondeg. Need further detailed information. Does the owner have an existing easement?*
- 5.9 Gyllideb Cyngor Sir - adroddwyd y bydd cynnig o gynyddu'r dreth o 10% yn cael effaith difrifol ar deuluoedd ifanc / *County Council budget - it was reported that a proposal of increasing the council tax by 10% will have a serious affect on young families*

6. Adroddiad gan y Cynghorwyr Sir /Report by the County Councillors

Dim adrodd / *No report*

7. Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications

- **12EL1557/E - Beaumaris - Llandegfan** - cynllun ail-adeiladu lein trydan 11KV uwchben ddaear, polion 88 i 128 - dim gwrthwynebiad / *plan to rebuild the 11KV overhead line, poles 88 to 128 - no objection.*

- **12EL1557A/E/SCR – Beaumaris – Llandegfan** - cynllun ail-adeiladu lein trydan 11KV uwchben ddaear, polion 88 i 128 – dim gwrthwynebiad / *plan to rebuild the 11KV overhead line, poles 88 to 128 - no objection.*

Gwybodaeth / Information

- 22C144D - Llys y Gwynt - cais llawn ar gyfer newid defnydd adeilad allanol gwyliau ynghyd ac addasu ac ehangu - wedi ei wrthod / *Full application for conversion of an outbuilding into a holiday unit together with alterations and extensions - has been refused*
- 22C240 – Bryniau Mawr – cais llawn ar gyfer creu mynedfa amaethyddol newydd ar dir – wedi ei caniatáu / *Full application for the construction of a new agricultural access on land – has been granted*
- 22C44D - Ty Efail, Lôn Cae Mawr - cais llawn ar gyfer ehangu'r cwrtil ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau - wedi ei caniatáu / *Full application for an extension to curtilage together with creation of new vehiculr access - has been granted.*

8. Hen Ysgol / Old School

- 8.1 Diweddariad gan Cyng. R Hughes – Contractwyr i ddechrau gweithio ar 23/11. Mae pwyllgor Neuadd y Pentref wedi cwrdd â'r Cyngor Sir ynghylch cyflwr yr Ysgol. Arwerthiant yr hen Neuadd Bentref i'w gynnal ar 6/12 / *Contractors to start work on the 23/11. The Village Hall committee have met the County Council regarding the condition of the School. Auction of the old Village Hall to take place on 6/12.*
- 8.2 Wedi derbyn cais gan bwyllgor Neuadd y Pentref am gymorth ariannol i gynorthwyo gydag yswiriant yr Ysgol dros y cyfnod anodd hwn. Penderfynwyd yn unfrydol i roi £ 500 tuag at yr achos. / *Received a request from the Village Hall committee for financial support to assist with the insurance of the School over this difficult period. It was resolved unanimously to donate £500 towards the cause.*

9. Tir Comin/Common Land

- 9.1 Dympio anghyfreithlon ar dir comin y Rhos eto / *Illegal dumping on Rhos common land again*
- 9.2 Rhos Llaniestyn - difrod i dir comin - Cynghorwyr yn pryderu am ddiffyg sylw gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'r difrod i'r comin. Penderfynwyd ysgrifennu i CNC / *Rhos Llaniestyn - Councillors are concerned about the lack of attention from a Natural Resource Wales to the damage to the common. It was resolved to write to NRW*
- 9.3 Hawddfrait ar gyfer peipen ddŵr ar draws tir comin i Tyddyn Ben - oherwydd y diffyg gweithredu, penderfynwyd ysgrifennu at y perchennog i dacluso'r ardal / *Easement for Water Pipe across common land to Tyddyn Ben - due to the lack of action, it was resolved to write to the owner to tidy up the area.*

10. Cyfrifon / Accounts

- 10.1 Trafodwyd a chytuno i dalu / *Discussed and agreed to pay:-*
- I Roberts – cynnal a chadw llwybrau / *footpath maintenance - £1,800.00*
 - J Bentley - torri mynwentydd / *cemetery maintenance - £730.00*
 - Capel Peniel – hurio ystafell / *hire of room - £120.00*
 - Pwyllgor y Neuadd / *Village Hall committee - £500*

10.2 Incwm / Income

Wayleave Bryn Hyfryd - £19.71

- 10.3 Clerc yn egluro incwm a gwariant hyd at ddiwedd charter 2 / *Clerk explained the income and expenditure as at end of quarter 2*

11. Gohebiaeth/Correspondence

- Dyfynbris torri coed / *Quote for cutting the tree*
- Scottish Power
- J Roberts
- Cyngor Sir / *County Council*
- Rheoleiddiwr Pensiwn / *Pension Regulator*

12. UFA/AOB:

- 12.1 Clerc i drefnu gyda'r Cyngor Sir i hysbysebu'r seddi gwag / *Clerk to arrange with the County Council to advertise the vacant seats*
- 12.2 Angen torri clwadd Crosswinds / *Hedge at Crosswinds requires cutting*

- 12.3 Adroddwyd bod y gofeb wedi'r addurno'n briodol iawn ar gyfer y gwasanaeth a gynhaliwyd ar 11/11/18 / *It was reported that the memorial was well decorated appropriately for the service that took place on the 11/11/18*
- 12.4 Cawsom gytundeb wayleave gan Scottish Power ynghylch y polyn ar gebl tanddaearol ger Bryn Hyfryd a newid rhwydwaith ar lôn Glanrhyd / *Wayleave agreement received from Scottish Power regarding the pole and underground cable by Bryn Hyfryd and network alteration on Lon Glanrhyd*
- 12.5 Dywedwyd bod injan Tan wedi mynychu digwyddiad yn Tan Fynwent / *It was reported that the Fire engine attended an incident at Tan Fynwent*
- 12.6 Trafodwyd y broblem ynglŷn â chaniatâd cynllunio lleol yn enwedig gwrthod y cais i adeiladu tŷ fforddiadwy ger Llygaid y Rhos / *Discussed the problem about planning consent locally especially the refusal of the application to build an affordable home by Llygaid y Rhos*
- 12.7 Cyng. M Williams yn egluro'r broblem gyda pharcio ger traeth yn ddiweddar / *Clr. M Williams explained the recent parking problem near the beach.*
- 12.8 Machlud Haul, Wern y Wylan - gorchymyn a rhybudd i wyro llwybr troed cyhoeddus rhif 6 / *Notice and order to divert public footpath number 6*
- 12.9 Atgoffwyd y Clerc am yr ymgynhoriad Peilionau / *Clerk reminded of the Pylons consultation*
- 12.10 Mynwent y plwyf mewn credyd a Dwr Cymru - £9.21 / *Parish cemetery in credit with Welsh Water - £9.21*
- 12.11 Trafodwyd y canfyddiadau a'r argymhellion IPRW diweddaraf / *Discussed the latest IPRW findings and recommendations*
- 12.12 Mynegwyd pryder am fynedfa sydd wedi ei greu yn Maes Gwyn heb gais cynllunio / *Concern was raised that an entrance has been created in Maes Gwyn without planning consent*
- 12.13 Mae cynllun gweithredu strategaeth Iaith y Cyngor Sir ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned i benodi hyrwyddwr Cymraeg, i drafod ymhellach / *County Council Language Strategy action plan is for Town and community Councils to appoint a Welsh language champion, to be discussed further.*

13. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9:50 o'r gloch. Cyfarfod nesaf ar 19/12/18 am 7.30 yn Capel Peniel.

There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 9:50pm. Next meeting to be held on 19/12/18 at 7.30pm in Peniel Chapel.

Llofnod y Gadeirydd -

Dyddiad